

RHYBUDD o Benderfyniadau y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd Ddydd Mercher, 23 Mehefin 2021

Presennol: Cynghorwyr Richard Griffiths, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret Murley Roberts, P S Rogers (Cadeirydd), John Griffith a Jeff Evans, Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Is-Gadeirydd)

Wrth law: Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP), Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM), Swyddog Pwyllgor (ATH)

Ymddiheuriadau: Cynghorydd G O Jones

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol), Yvonne Thomas (Arweinydd Archwilio Ariannol – Archwilio Cymru), Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO), Prif Archwiliwr (NRW), Swyddog Sgriwtini (SR)

(2:00 y.p. tan 3:45 y.p.)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	1 Datganiad o Ddiddordeb
PENDERFYNIAD	Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol
PENDERFYNIAD	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 25 Mai 2021 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	3 Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2020/21 Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Trawsnewid
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd – <ul style="list-style-type: none">• Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft a fydd yn rhan o Ddatganiad Cyfrifon 2020/21.• Dirprwyo awdurdod i Gadeirydd y Pwyllgor a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 i wneud mân newidiadau pellach i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol cyn ei gynnwys yn y fersiwn derfynol o'r Datganiad Cyfrifon. GWEITHRED YCHWANEGOL: Gwahodd

	<p>aelodau'r Pwyllgor, os ydynt yn dymuno, i gynnig mân newidiadau i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol cyn iddo gael ei gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon.</p>
RHIF YR EITEM A'R PWNC	<p>4 Datganiad o'r Cyfrifon Drafft 2020/21 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151</p>
PENDERFYNIAD	<p>Ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfynwyd nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft heb eu harchwilio ar gyfer 2020/21.</p>